Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Cylch Meithrin Maesywaen**
**Neuadd Maesywaen**
**Rhyduchaf**
**Gwynedd**
**LL23 7SF**

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2014**

**gan**

**Wil Williams**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 08/07/2014**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Maesywaen yn lleoliad meithrin cofrestredig sydd yn darparu addysg cyn-ysgol i blant ardal wledig y Waen.  Mae’n cyfarfod yn neuadd gymunedol Maesywaen sydd hefyd yn cael ei defnyddio gan fudiadau eraill yn ystod yr wythnos.

Mae’r lleoliad yn derbyn plant o bob gallu a chefndir i’r sesiynau.  Yn ystod yr arolygiad, nid oedd yr un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol nac o dras ethnig yn mynychu’r lleoliad.  Cymraeg yw prif iaith y cartref i bron pob plentyn.

Mae’r lleoliad yn darparu sesiynau o ddwy awr a hanner am bedwar bore’r wythnos ar gyfer plant dwy i bedair oed.  Mae 17o blant wedi’u cofrestru yn y lleoliad gyda chwech ohonynt yn cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol.

Mae plant yn cael eu haddysgu gan un arweinydd a dwy ymarferydd ac maent wedi’u cymhwyso’n briodol ar gyfer addysgu’r blynyddoedd cynnar.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru yn Ionawr 2014 a chan Estyn yn Hydref 2009.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yn dda oherwydd bod:

- bron pob plentyn gwneud cynnydd realistic ym mhob maes dysgu;
- safonau mewn medrau llythrennedd a rhifedd yn dda;
- yr holl blant yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad;
- plant yn ymddwyn yn dda ac yn arddangos gofal a pharch tuag at ei gilydd;
- addysgu'n gyson dd;
- plant yn cael eu hannog i arbrofi â phrofiadau newydd;
- deilliannau asesu'n cael eu defnyddio'n effeithiol i gynllunio ar gyfer y dyfodol;
- trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed iach;
- ansawdd uchel gofal, cymorth ac arweiniad; a'r
- lleoliad yn gymuned gynhwysol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'n dda oherwydd bod:

- ansawdd uchel arweinyddiaeth a gwaith tîm;
- synnwyr cryf o ddiben i waith y lleoliad;
- trefniadau cadarn ar gyfer cynnal arfer dda a rhoi newid ar waith;
- y pwyllgor rheoli yn cyflawni ei waith yn drylwyr;
- gweithgareddau partneriaeth yn cyfrannu'n gadarnhaol at gyflawniadau a lles plant;
- yr adroddiad hunan-arfarnu o ansawdd da;
- rheolaeth ariannol yn gadarn; a'r
- lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Argymhellion

1. Rhoi mwy o le i lais y plentyn yn y trefniadau hunan-arfarnu.
2. Cynyddu'r gyflenwad o adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Ac ystyried eu hoedran a'u man cychwyn ar fynediad i'r lleoliad, mae bron pob plentyn yn cyflawni safonau da ac yn gwneud cynnydd realistic ym mhob maes dysgu. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn adalw dysgu blaenorol yn gyflym ac yn datblygu medrau meddwl a datrys problemau da wrth iddynt weithio ar dasgau penagored. Mae'r rhan fwyaf yn gweithio hyd eithaf eu gallu ac yn dyfalbarhau'n ddiwyd dros gyfnodau estynedig. Wrth iddynt ymwneud â thasgau o ddewis eu hunain, mae bron pob plentyn yn arbrofi ac ymchwilio'n hyderus. Maent yn fodlon mentro ac yn gwneud cynnydd da tuag at fod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae safonau mewn medrau llythrennedd yn dda. Wrth iddynt drafod gydag oedolion neu gymryd rhan mewn sesiynau torfol, mae bron pob plentyn yn arddangos medrau siarad a gwrando da. Mae'r rhan fwyaf yn mynegi eu syniadau'n glir, er enghraifft, wrth drafod cynnwys stori**,** ac yn gwrando'n feddylgar ar gyfraniadau plant eraill yn y grŵp. Mae pob plentyn yn dangos diddordeb brwd mewn llyfrau stori ac yn mwynhau eu cynnwys gyda neu heb oedolyn. Mae pob un yn trin llyfr fel darllenwr gyda'r rhan fwyaf yn gallu rhestru geiriau sy'n cychwyn gyda llythyren benodol.

Mae bron pob plentyn yn defnyddio eu medrau rhifedd yn hyderus yn ystod eu gweithgareddau dydd-i-ddydd a'u chwarae. Maent i gyd yn ymuno'n frwdfrydig gyda'r dosbarth wrth gydgyfrif rhifau 1 i 10 gyda'r mwyafrif ohonynt yn cyfrif hyd at bum gwrthrych yn ddibynadwy. Mae bron pob plentyn yn cofnodi rhifau trwy wneud marciau ac yn dechrau deall y cysyniad o 'un yn fwy.' Wrth iddynt chwarae rôl yn y caffi, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dangos ymwybyddiaeth briodol o bwrpas arian.

Er bod llawer o blant yn defnyddio rhaglenni cyfrifiadurol yn hyderus, nid ydynt yn gwneud digon o gynnydd yn eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) wrth iddynt symud drwy'r Cyfnod Sylfaen.

**Lles: Da**

Mae'r holl blant yn dweud eu bod yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad a'u bod wedi ffurfio perthynas glos gyda phlant eraill a'r ymarferwyr. Nodwedd amlwg o'r lleoliad yw ymddygiad da'r rhan fwyaf o'r plant a'r gofal sydd ganddynt tuag at ei gilydd. Mae llawer o'r plant yn ystyriol o deimladau plant eraill. Wrth iddynt ymwneud â gweithgareddau penodol neu dasgau o'u dewis hwy eu hunain, mae'r holl blant yn cydweithio'n gytûn ac yn fodlon rhannu adnoddau gydag eraill yn y grŵp. Yn unol â'u gallu a'u cyfnod datblygu, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn arddangos lefelau uchel o annibyniaeth ac yn fodlon dyfalbarhad gydag un dasg dros gyfnod estynedig.

Mae pob plentyn yn fodlon ymgymryd â chyfrifoldebau megis dyletswyddau 'helpwr y dydd' a hunan-gofrestru. Wrth iddynt aeddfedu, mae'r rhan fwyaf yn dysgu gwneud penderfyniadau mwy gwybodus am eu dysgu.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae profiadau dysgu diddorol ac ysgogol yn bodloni anghenion a diddordebau'r holl blant yn dda ac yn eu hannog i ddysgu'n effeithiol a gwneud cynnydd da ar draws bron pob maes dysgu. Mae dysgu wedi ei seilio ar gynlluniau cwricwlaidd manwl sy'n adlewyrchu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn gryf ac yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol y plant. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r amgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored yn effeithiol i annog plant i arbrofi â phrofiadau newydd a datblygu eu medrau yn effeithiol. Caiff plant gyfleoedd mynych i arwain eu dysgu eu hunain ac i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol. Maent yn ymweld â'r gymuned leol yn rheolaidd ac yn dysgu llawer oddi wrth ymwelwyr â'r lleoliad.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cyfathrebu, rhifedd, medrau meddwl a datrys problemau yn gydlynol ac wedi'u hymgorffori'n gadarn ym mhrofiadau dysgu'r plant.

Caiff plant rôl weithredol yng ngweithgareddau'r lleoliad ar gyfer ailgylchu deunyddiau ac arbed ynni. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o ddiwylliant, gwyliau a thraddodiadau Cymru yn llwyddiannus iawn ac yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr iddynt ddysgu am eu rôl fel dinasyddion byd-eang.

**Addysgu: Da**

Mae gan ymarferwyr wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o bob plentyn ac maent yn cynllunio tasgau sy'n cyfateb yn dda â gallu ac anghenion yr holl blant. Mae ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd fel tîm ac mae rhyngweithio da iawn rhyngddynt a phlant. Mae bron pob tasg yn cynnwys her addas ac yn rhoi pwyslais cryf ar ddysgu trwy chwarae ac ar ddatrys problemau ymarferol. Mae ymyrraeth bwrpasol a holi medrus yn galluogi ymarferwyr i herio syniadau'r plant a symud y dysgu yn ei flaen. Wrth ymuno yn y chwarae, maent yn gallu sicrhau bod plant yn manteisio i'r eithaf ar yr hyn sydd gan bob gweithgaredd i'w gynnig. Pan gyfyd achosion prin o ymddygiad annerbyniol neu anghydfod rhwng unigolion, mae ymarferwyr yn eu datrys yn gadarn a sensitif.

Mae'r ymarferwyr yn asesu'r plant yn rheolaidd ac yn gynhwysfawr ac yn cofnodi arsylwadau ac asesiadau'n ofalus i fesur cynnydd pob unigolyn trwy gydol ei amser yn y lleoliad. Maent yn defnyddio deilliannau asesiadau'n effeithiol iawn i adnabod anghenion unigol plant a hefyd i gynllunio gweithgareddau ar gyfer y dyfodol. Trwy nosweithiau agored, sgyrsiau anffurfiol gydag ymarferwyr a thrwy dderbyn albwm o luniau eu plentyn ar waith yn yr ardaloedd dysgu, caiff rhieni wybodaeth ddiddorol a chyflawn am gynnydd eu plant yn ystod eu hamser yn y lleoliad.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithiol sy'n bodoli ar gyfer cefnogi iechyd a lles plant yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad cyffredinol plant ac yn cefnogi eu dysgu'n effeithiol. Mae'r lleoliad yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed iach. Mae'r profiad dyddiol gaiff plant o gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn cyfrannu'n dda tuag at godi eu lefelau ffitrwydd.

Mae darpariaeth dda ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant. Yn ystod eu hymwneud dyddiol â phlant, mae ymarferwyr yn pwysleisio'n gryf yr angen i bawb fod yn garedig tuag at ei gilydd, ac i fod yn onest a theg. Mae hyn yn help mawr i'r plant ddysgu gwahaniaethu rhwng yr hyn sy'n iawn a'r hyn sydd ddim yn iawn. Mae'r cyfleoedd rheolaidd i blant trwy 'Helpwr y Dydd' i ymgymryd â chyfrifoldebau ac i wneud dewisiadau eu hunain ynghylch eu dysgu yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at eu datblygiad personol a chymdeithasol.

Mae profiadau megis dathlu Dydd y Llyfr a bod yn rhan o berfformiad 'Miri Mawr' yn cyfrannu'n arwyddocaol at ddatblygiad diwylliannol y plant.

Mae trefniadau effeithiol ar gyfer ail-gylchu ac arbed gwastraff.

Mae'r trefniadau sefydlu effeithiol yn helpu plant i ymgartrefu'n gyflym a didrafferth yn y lleoliad. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn darparu arweiniad clir iddynt yn ystod sesiynau. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda ynghylch sut i gael mynediad at gymorth proffesiynol i blant a rhieni. Caiff anghenion dysgu plant eu nodi'n fanwl pan fyddant yn ymuno â'r lleoliad a bydd ymarferwyr yn gwneud yn siŵr bod yr anghenion hyn yn cael eu bodloni.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff pob plentyn hawl cyfartal i'r holl feysydd dysgu a'r gweithgareddau a ddarperir. Mae pwyslais cryf ar ddatblygu agweddau goddefgar ac ar sicrhau bod plant ac aelodau staff yn rhydd o unrhyw aflonyddwch. Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr sy'n meddu ar wybodaeth ac arbenigedd digonol i addysgu pob agwedd ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Nodwedd amlwg iawn o'r lleoliad yw'r amgylchedd dysgu diddorol a grëir ynddo a'r cyfleoedd a gaiff pob plentyn i ddatblygu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol.

Ac eithrio TGCh, mae cyflenwad helaeth o adnoddau sydd o ansawdd da ym mhob maes dysgu ac maent yn cael eu gweddu'n ofalus i ddatblygiad ac anghenion dysgu pob unigolyn. Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd cyson ac effeithiol o'r ardal y tu allan, yn arbennig ar gyfer datblygu medrau corfforol plant. Gwna'r ymarferwyr ddefnydd pwrpasol iawn o adnoddau a phobl yn y gymuned i gyfoethogi'r cwricwlwm ac i gefnogi dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r amrywiaeth o arddangosfeydd diddorol yn dathlu gwaith plant yn effeithiol iawn ac yn rhoi ymdeimlad o berchnogaeth iddynt dros yr ystafell ddysgu. Mae'r adeilad a'r ystafelloedd o ansawdd da ac yn cael eu defnyddio'n helaeth.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Trwy ymroddiad a brwdfrydedd yr arweinydd, mae'r lleoliad yn llwyddo i greu ethos cadarnhaol dros ben gyda phlant a staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae ymarferwyr yn rhannu gwerthoedd cyffredin am ddysgu, ymddygiad a pherthnasau ac maent yn cydweithio'n effeithiol iawn i sicrhau bod y Cyfnod Sylfaen a blaenoriaethau lleol a chenedlaethol eraill yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus. Mae'r synnwyr cryf o ddiben a grëir gan yn h lleoliad yn hyrwyddo a chynnal gwelliant yn effeithiol. Mae dysgu ac addysgu yn cael eu rheoli'n dda, ac mae polisïau'r lleoliad yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Mae gan staff ddealltwriaeth eglur o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn eu cyflawni'n gydwybodol yn ystod sesiynau. Mae perthynas gyda phlant, rhieni a'r ysgol gynradd yn gadarnhaol iawn ac yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at greu synnwyr o gymuned.

Mae gan y pwyllgor rheoli wybodaeth dda am berfformiad y lleoliad ac mae'n cyflawni ei gyfrifoldebau'n gydwybodol. Mae swyddogion y pwyllgor yn ymgynghori ac yn rhannu gwybodaeth gyda'r rhieni yn rheolaidd ac maent yn cyfrannu'n effeithiol tuag at weinyddiaeth y lleoliad. Mae cyfundrefn rheoli perfformiad priodol sy'n cynorthwyo staff i arfarnu a gwella eu harfer ac adnabod eu hanghenion proffesiynol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r ymarferwyr yn gwybod yn dda beth yw cryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w datblygu. Drwy anogaeth yr arweinydd, maent yn hunan-arfarnu'n barhaus ac yn archwilio ffyrdd i wella. Mae trefniadau cadarn ar gyfer cynnal arfer dda a rhoi newid ar waith mewn meysydd sydd angen gwelliant. Mae hunan-arfarniad yn rhoi ystyriaeth ofalus i farn rhieni a'r pwyllgor rheoli ac yn manteisio'n sylweddol ar gyngor proffesiynol athrawes gefnogol yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, nid oes cyfleodd digonol i blant leisio barn ynghylch eu profiadau dysgu.

Gall ymarferwyr ddangos sut mae hunan-arfarnu wedi arwain at welliannau mewn cynllunio ac asesu.

Mae'r adroddiad hunan-arfarnu ynghyd â'r cynllun gwella, o ansawdd da ac yn rhoi cyfeiriad clir i ddatblygiad y lleoliad. Bydd yr arweinydd yn sicrhau bod y blaenoriaethau a nodir yn y cynllun yn cael eu gweithredu'n systematig yn ystod y flwyddyn.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gweithgareddau partneriaeth yn cyfrannu'n gadarnhaol at gyflawniadau a lles plant. Caiff y rhieni eu hysbysu'n rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad ac mae'r arweinydd yn cymryd camau gweithredol i geisio'u cynnwys yn yr holl weithgareddau mae'n ei drefnu. Mae llawlyfr rhieni yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am bolisïau a gweithdrefnau'r lleoliad.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau agos gyda'r ysgol gynradd ac mae trefniadau clir ar gyfer trosglwyddo plant a gwybodaeth asesu i'r dosbarth meithrin ar ddiwedd y flwyddyn addysgol.

Mae arfer o wahodd pentrefwyr i ddod i'r lleoliad i rannu eu profiadau a'u medrau gyda'r plant, yn cryfhau ymglymiad y plant i'w cymuned leol.

Mae'r cydweithio agos rhwng y lleoliad ac athrawes gynhaliol yr awdurdod lleol yn cyfrannu'n gadarnhaol at wella ansawdd y ddarpariaeth a safonau.  Mae'r ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol iawn, yn rhannu gwybodaeth am blant ac yn gwybod gyda phwy i gysylltu a phryd os bydd angen cymorth ychwanegol ar blant.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae'r sesiynau hyfforddi rheolaidd sy'n cael eu cynnal gan yr awdurdod addysg a'r Mudiad Meithrin yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ymarferwyr ddiweddaru eu gwybodaeth a'u medrau.  Bu hyfforddiant diweddar yn gymorth mawr i'r lleoliad addasu ei ddulliau asesu er mwyn cydymffurfio ag arweiniad diweddaraf yr awdurdod addysg.

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Gwna'r arweinydd ddefnydd effeithiol o amser a phrofiad staff er mwyn sicrhau bod gofal a chynhaliaeth dda ar gael i bob plentyn.

Mae arbenigedd y lleoliad o ran denu grantiau o wahanol ffynonellau wedi cynyddu'r cyflenwad o adnoddau dysgu yn sylweddol ac o ganlyniad, wedi cyfoethogi profiadau dysgu plant.

Mae trysorydd y pwyllgor rheoli yn cadw cofnod manwl iawn o sefyllfa gyllidol y lleoliad ac yn gwneud yn siŵr bod gwariant yn cael ei reoli'n ofalus ac yn unol ag anghenion datblygu'r lleoliad.  Mae penderfyniadau gwariant yn cael eu harfarnu'n ofalus i wneud yn siŵr eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar safonau cyflawniad, cynnydd a lles plant.

Ag ystyried y  deilliannau da a chynnydd parhaus y plant, mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |